

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	29 Gorffennaf 2022
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO -LAND AND SEAFOOD BAR
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH AMGYLCHEDD

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Land and Seafood Bar, yr ardal tu allan i'r Abersoch Land and Sea, Royal Garage , Abersoch, LL53 7AH, gan Zobra Limited; o Manchester Hall, 36 Bridge Street, Manceinion. Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer bwyty tu allan i adeilad busnes gwerthu a thrwsio cychod Abersoch Land and Sea. Fe ddangosir lleoliad y llecyn trwyddedig arfaethedig ar Gynllun 1 a atodir gyda'r cais. Mae Cynllun 2 yn dangos lleoliad y fan arlwyyo 'airstream' lle bwriedir gweini bwyd a diod i gwsmeriaid ar y byrddau a chadeiriau sydd wedi eu gosod eisoes yn y lleoliad. Mae Cynllun 3 yn dangos lleoliad y toiledau ar y safle. Gofynnir am yr hawl i werthu alcohol o 11 y bore tan 21:30 yr hwyr, ar ac oddi ar yr eiddo; saith diwrnod yr wythnos , ac fe ofynnir am hanner awr yn ychwanegol er mwyn rhoi cyfle i gwsmeriaid orffen a gadael.
- 1.2 Ni wneir cais am yr hawl i gynnal adloniant; ond petai y drwydded yn cael ei chaniatáu; fe fyddai'r ymgeisydd yn gallu manteisio ar eithriadau y Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 i chwarae cerddoriaeth chwyddiedig tan amser cau am 22:00.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

Oriau agor/Opening Hours

Dydd Sul/Sunday	11:00 - 22:00
Dydd Llun/Monday	11:00 - 22:00
Dydd Mawrth/Tuesday	11:00 - 22:00
Dydd Mercher/Wednesday	11:00 - 22:00
Dydd Iau/Thursday	11:00 - 22:00
Dydd Gwener/Friday	11:00 - 22:00
Dydd Sadwrn/Saturday	11:00 - 22:00

Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:

Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: On and off the Premises

Dydd Sul/Sunday	11:00 - 21:30
Dydd Llun/Monday	11:00 - 21:30
Dydd Mawrth/Tuesday	11:00 - 21:30
Dydd Mercher/Wednesday	11:00 - 21:30
Dydd Iau/Thursday	11:00 - 21:30
Dydd Gwener/Friday	11:00 - 21:30
Dydd Sadwrn/Saturday	11:00 - 21:30

2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- 2.1 Nid yw'r ymgeisydd wedi cynnwys mesurau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn rhan M o'r cais, ond yn hytrach mae wedi cynnwys argymhelliad o Atodlen Weithredol a Pholisi Gwasgaru fel rhan o'r cais (gweler atodiad).
- 2.2 Awgrymir fod aelodau'r Pwyllgor yn herio'r ymgeisydd o ran sut mae yn bwriadu gweithredu yr holl o'r argymhellion a nodir yn yr Atodlen Weithredol; a'r Polisi Gwasgaru; o ystyried fod y busnes yn gweithredu yn yr awyr agored; yng nghwrtil busnes prysur arall. Gweler isod grynodeb o rai o'r mesurau a argymhellir -

- Gweithredir system Teledu Cylch Cyfyng
- Fe fydd Goruchwylwyr drysau cymwys yn cael eu cyflogi yn unol a'r Asesiad Risg o'r angen fydd wedi ei gynnal gan y Goruchwylwr Eiddo Dynodedig
- Ni fydd cynhwysyddion o alcohol agored yn cael gadael yr eiddo
- Hyfforddiant ar gyfer rheoli gwerthiant dan oed – gyda gwrthodiad gwerthiant yn cael ei gofnodi mewn cofrestr
- Gwiriadau diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal gan staff
- Gweithio gyda'r Awdurdod Tan
- Sŵn o gerddoriaeth chwyddedig neu leisiau ddim i achosi niwsans cyhoeddus i drigolion cyfagos
- Sbwriel i'w glirio oddi ar y eiddo yn rheolaidd
- Fe ofynnir i gwsmeriaid sydd yn anwybyddu arwyddion neu orchymyn i ddistewi i adael yr eiddo neu symud tu mewn
- Fe fydd polisi Gwasgaru yn cael ei weithredu – ac fe fydd cwsmeriaid yn cael eu hannog i adael yn raddol a thawel, a pheidio ymgynnull tu allan i'r eiddo.
- Ni fydd cynnwys biniau yn cael eu trosglwyddo i sgipiau rhwng 23:00 a 07:00 y bore
- Fe weithredir Polisi 'Her 25'
- Hyfforddiant i staff ar werthiant o dan oed
- Arddangos Rhybuddion ar ba fath o gardiau adnabod sy'n dderbyniol
- Arddangos rhybuddion mewn llefydd amlwg yn nodi fod Polisi 'Her 25' yn cael ei weithredu

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir wedi atodi gyda'r cais yn yr Atodlen Weithredol a'r Polisi Gwasgaru

3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau
Gwasanaeth Cynllunio – rheolaeth datblygu	sylwadau
Cynllunio - gorfodaeth	Gwrthwynebiad a sylwadau
Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd a Diogelwch	Gwrthwynebiad
Gwarchod y Cyhoedd Rheolaeth Llygredd	Sylwadau
Gwasanaeth Gorfodaeth Traffig	Gwrthwynebiad
Cyngor Cymuned	Gwrthwynebiad
Aelodau'r Cyhoedd	7 gwrthwynebiad

3.2 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru

- 3.3 Mae'r Heddlu yn datgan pryder ynglŷn a gallu'r ymgeisydd yn benodol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r pedwar amcan trwyddedu , ond yn benodol gyda'r amcanion o sicrhau diogelwch y cyhoedd a gwarchod plant rhag niwed. Noder nad yw y ffens rhaffau sydd wedi eu gosod i amgylchynu'r ardal eistedd yn rwystr digonol i sicrhau gwahaniad digonol rhwng yr ardal fwyta a gweddill gweithgareddau busnes cychod Land and Sea.
- 3.4 Mae Tractors a cychod yn mynd i fod yn atyniad naturiol i blant chwilfrydig ac nid yw y rhaffau yn mynd i rwystro plentyn rhag camu i lwybr tractor
- 3.5 Mae alcohol yn effeithio ar allu oedolion i i farnu pellter a chyflymder cerbydau , ac mae yn lleoliad yr ardal fwyd mor agos i'r ffordd brysur a busnes cychod

3.6 Sylwadau Uned Rheolaeth Datblygu Cynllunio Cyngor Gwynedd

- 3.7 Fe dderbyniwyd sylwadau yn nodi fod Caniatâd Cynllunio eisoes wedi ei wrthod ar gyfer datblygiad cyffelyb ar y safle yn 2021. (cais rhif C21/0140/39/LL) Fe nododd y swyddog fod y datblygiad diweddaraf ar yr eiddo yn ei hanfod yr un peth a wrthodwyd yn 2021; ac o ganlyniad nid oes hawl wedi ei sefydlu ar gyfer y defnydd arfaethedig
- 3.8 Fe atododd y swyddog rybudd penderfyniad ar gyfer y cais Cynllunio a wrthodwyd yn 2021, ac un o'r prif resymau dros wrthod oedd pryderon diogelwch y cyhoedd oherwydd prysurdeb y busnes a'r ffordd fawr.

3.9 Sylwadau Uned Gorfodaeth Cynllunio

- 3.10 Ymhellach i sylwadau gwreiddiol y gwasanaeth Cynllunio , fe dderbyniwyd sylwadau pellach a gwrthwynebiad gan y'r Uned Gorfodaeth yn nodi fod swyddogion yr Uned yn ymchwilio i mewn i dor-rheolaeth cynllunio ar y safle yn ogystal. Nodir fod y ddwy Uned Arlwyio symudol sydd ar y safle bellach angen caniatâd cynllunio gan eu bod wedi eu lleoli o fewn cwrtil adeilad Abersoch Land & Sea . Ni fu apêl yn erbyn y penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer Caffi – Bar ar y safle; ac felly noder fod y penderfyniad ar y cais yn sefyll, ac yn berthnasol i'r datblygiad diweddaraf.
- 3.11 Cadarnhawyd fod yr Uned yn y broses o gychwyn camau gorfodaeth ffurfiol i atal y defnydd di-ganiatâd cyfredol; er sicrhau fod yr unedau arlwyio symudol ynghyd ag unrhyw gyfarpar cysylltiol yn cael eu symud yn gyfan gwbl oddi ar y tir.

3.12 Sylwadau Uned Iechyd a Diogelwch Gwarchod y Cyhoedd

- 3.13 Derbyniwyd gwrthwynebiad gan yr Uned mewn perthynas a'r amcan trwyddedu o sicrhau diogelwch y cyhoedd. Nodwyd nad oedd unrhyw wybodaeth megis Asesiadau Risg wedi eu cynnwys gyda'r cais , er fod cyfeiriad at Asesiad Risg yn yr Atodlen Weithredol a gyflwynwyd.
- 3.14 Nodwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi ystyried yn llawn oblygiadau diogelwch y cyhoedd mewn perthynas a gwerthu alcohol ar y safle. Datganwyd pryder fod potensial i nifer sylweddol o bobl ymgynnull tu allan i Abersoch Land and Sea, o dan ddylanwad alcohol; ac nad oedd unrhyw ystyriaeth i beryglon traffig ar y ddwy ochor i'r safle wedi ei gynnwys gyda'r cais.
- 3.15 Ymhellach, nodir nad oes eglurhad wedi ei gynnig o ran sut y byddai y busnes cychod Land and Sea yn rheoli risgiau diogelwch a r y safle tra bod alcohol yn cael ei werthu iw yfed ar y safle.
- 3.16 Mynegwyd pryder nad oedd unrhyw wybodaeth yn y cais ynglŷn a phryd y byddai goruchwylwyr drws yn cael eu cyflogi ; a sut y byddai disgwyl i staff reoli ymddygiad unigolion sydd wedi ymgynnull ger y safle wedi amser cau.

- 3.17 Fe gwestiynwyd beth yn union oedd yr ymgeisydd yn ei olygu gyda cynnal arolygon diogelwch rheolaidd; gan nad oedd unrhyw fanylion yn y cais na'r dogfennau cysylltiol.
- 3.18 **Sylwadau Uned Llygredd – Gwarchod y Cyhoedd**
- 3.19 Derbyniwyd sylwadau gan swyddog o'r gwasanaeth mewn perthynas a'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Noder fod trafodaeth wedi bod gyda chyfreithiwr yr ymgeisydd gan fod yr Atodlen Weithredol yn sôn am rheolaeth cerddoriaeth chwyddedig; er nad yw y cais yn gofyn am yr hawl i chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio na cynnal cerddoriaeth fyw.
- 3.20 Mae cadarnhad wedi ei dderbyn nad yw yr ymgeisydd yn gofyn am yr hawl i gynnal adloniant rheoledig; ond nodir fod gan yr ymgeisydd hawl i chwarae cerddoriaeth o dan y Deddf Cerddoriaeth Byw 2012 os fydd y drwydded yn cael ei chaniatáu ar gyfer y safle. Fe gadarnhawyd mai'r bwriad fyddai chwarae cerddoriaeth ar lefel cefndirol yn unig. **Er hyn , gellir cadarnhau fod swyddogion y gwasanaeth wedi derbyn dau gwyn am sŵn o'r lleoliad dros benwythnos cyntaf i'r busnes fod yn masnachu bwyd ac alcohol ar Rybuddion Digwyddiad Dros Dro rhwng yr 8fed a'r 10fed o Orffennaf.** (Gwybodaeth yn gyfredol ar ddyddiad ysgrifennu'r adroddiad – 12/07/22)
- 3.21 Nododd y swyddog yn ogystal fod y cynllun yn dangos 12 o fyrddau sydd yn eistedd 8 person ar y safle, gyda lle i uchafswm o 96 o bobl i eistedd. Mae potensial felly oherwydd fod hwn yn safle agored i sŵn cwsmeriaid mewn grwpiau mawr , ac neu o dan ddylanwad alcohol i gario ; ac effeithio ar drigolion cyfagos. Mae ymddygiad a sŵn o'r fath mewn lleoliad agored yn anodd iawn i'w reoli.
- 3.22 **Sylwadau Uned Trafnidiaeth – Adran Amgylchedd**
- 3.23 Fe dderbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiad i'r cais gan swyddog o'r Uned yn nodi nad oedd yr ymgeisydd wedi cyfarch unrhyw un o'r pryderon a nodwyd pan wrthwynebwyd y cais Cynllunio ar y safle am ddatblygiad cyffelyb yn 2021.
- 3.24 Yn benodol; cyfeiriwyd at y ffaith fod pryderon y byddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o ddenu nifer o bobl i ymgynnull yn agos i'r ffordd fawr , ac y byddai hyn yn effeithio ar welededd ar gyfer trigolion a chwsmeriaid yn gadael safle busnes cychod Land and Sea. Nodwyd fod cyfyngder y safle yn debygol o arwain at griwiau o gwsmeriaid yn ymgynnull o gwmpas y safle gan arwain at broblemau diogelwch y ffordd.
- 3.25 Ymhellach nodwyd fod diffyg parcio ar y safle yn debygol o achosi problemau parcio mewn llecynnau ar y ffordd fawr gan danseilio diogelwch cerddwyr a gyrwyr cerbydau.
- 3.26 **Sylwadau Cyngor Cymuned Llanengan**
- 3.27 Derbyniwyd sylwadau yn ymgorffori pryderon y Cyngor mewn perthynas a'r 4 amcan trwyddedu ac mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn –
- **Atal Trosedd ac anrhefn** – pryderon y bydd yr hawl i weini alcohol 7 diwrnod yr wythnos tan 21:30 yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol a sŵn. Mae'r ddatblygiad tu allan i ganol y pentref mewn lleoliad tawel , gan effeithio ar gymeriad yr ardal
 - **Diogelwch y cyhoedd** – pryder fod cwsmeriaid angen croesi ffordd brysur i fynychu'r bwyty; ac fod y safle wedi ei leoli ar gyffordd brysur, ffordd mynediad i stadau tai, a dau fwyty arall. Nodir hefyd fod y datblygiad yn ychwanegu at brysurdeb prif weithgaredd y busnes , sef danfon a nol cychod o'r traeth gyda Tractors. Nid oes llecynnau parcio wedi ei nodi ar gyfer y bwriad ; ac mae pryderon y bydd mwy o bobl yn parcio ar linellau melyn ar

y ffordd gyfagos fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda mynychwyr y ddau eiddo bwyd cyfagos.

- **Atal Niwsans cyhoeddus** – Pryder y bydd lleoliad safle bwyta arall mewn lleoliad gymharol dawel tu allan i brif gyrchfan y pentref ar gyfer bwyta a tafarndai yn achosi niwsans sŵn i drigolion. Ymhellach nodwyd pryderon am y potensial o sŵn i drigolion wrth i gwsmeriaid gyrraedd a gadael, ac wrth i'r busnes baratoi bwyd a chlirio ar ddiwedd y dydd.
- **Amddiffyn plant rhag niwed** - mae llawer iawn o blant a theuluoedd yn defnyddio'r lleoliad i fynd yn ôl ac blaen i'r traeth yn ystod y gwyliau. Nodwyd hefyd fod pryder oherwydd lleoliad safle bws ysgol gyferbyn a'r safle

3.28 Sylwadau trigolion lleol

3.29 Fe dderbyniwyd 7 o e byst gan drigolion yn gwrthwynebu'r cais am drwydded gyda pryderon mewn perthynas a'r pedwar amcan trwyddedu, ac yn benodol o ran anaddasrwydd y lleoliad o ran diogelwch y cyhoedd a'r potensial o niwsans cyhoeddus. Gweler isod grynodeb o brif bryderon y trigolion –

- **Atal Trosedd ac anrhefn** – pryderon y bydd yr hawl i weini alcohol 7 diwrnod yr wythnos tan 21:30 yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol a sŵn. Noder fod y datblygiad tu allan i'r brif ganolfan busnesau bwyd a diod yng nghanol y pentref; ac fod pryder y byddai hyn yn creu anhawster i'r Heddlu wrth geisio cadw rheolaeth ar drosedd ac anrhefn. Mae'r datblygiad mewn lleoliad tawel, gan effeithio ar gymeriad yr ardal.
- Roedd un ymatebydd yn cwestiynu sut oedd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn gallu rheoli gweithgareddau trwyddedig ac yntau yn byw yn Aston Under Lyne.
- **Diogelwch y cyhoedd** – Noder fod dau drelar arlwygo, a dau gynhwysydd allforio wedi ymddangos ar y safle, er nad oedd hyn wedi ei gynnwys gyda Chynllun y cais. Amryw o'r ymatebwyr yn nodi fod y byrddau a chadeiriau wedi eu lleoli yn agos i'r ffordd fawr gyda dim ond wal derfyn isel rhwng yr ardal a'r ffordd. Llawer o'r ymatebwyr yn nodi pryderon gan fod y lleoliad ar gornel beryglus ar gyffordd rhwng y ffordd brysur A499 a Lon Garmon gyda mynediad i sawl busnes gan gynnwys busnes cychod Land and Sea yn ogystal a dau fwyty. Mynegwyd pryder fod mynediad a'r droed i'r lleoliad yn beryglus; ar gyffordd brysur ac fod Tractors yn mynd yn ôl ac ymlaen o'r lleoliad trwy'r dydd yn tynnu trelars a cychod yn ôl ac ymlaen i'r Traeth. Nodwyd fod plant yn cael eu denu i'r lleoliad i weld y Tractors a'r cychod.
- Datganwyd pryder fod Tractors yn rheolaidd yn symud trelars a cychod yn agos iawn i'r llecyn fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwenni bwyd a diod i blant a theuluoedd; ac fod y pryderon hynny yn cynyddu oherwydd fod pobl yn yfed alcohol.
- Mae pryderon y bydd mwy o bobl yn parcio yn beryglus ar linellau melyn ar y ffordd gyfagos fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda mynychwyr y ddau eiddo bwyd cyfagos.
- Datganwyd pryder y byddai cynnydd yn y ceir wedi eu parcio ar linellau melyn dwbl yn yr ardal gyfagos yn cynyddu'r risg y bydd mynediad argyfwng o'r adeilad Bad Achub RNLI yn cael ei rwystro
- Nododd sawl ymatebydd fod caniatâd Cynllunio wedi ei wrthod flwyddyn diwethaf ar gyfer Caffi Bar ar yr eiddo
- **Atal Niwsans cyhoeddus** – Nodwyd pryder gan bob un o'r ymatebwyr y byddai caniatáu trwydded ar gyfer y lleoliad awyr agored yn amharu ar drigolion cyfagos. Noder fod y lleoliad yn un gymharol dawel allan o'r brif rhan masnachol y pentref ac fod oddeutu 20 o breswylfeydd mewn lleoliad sensitif iawn i sŵn o'r eiddo.
- Ymhellach nodwyd pryderon am y potensial o sŵn i drigolion wrth i gwsmeriaid gyrraedd a gadael, ac wrth i staff y busnes baratoi bwyd a chlirio ar ddiwedd y dydd.

- Mae'r busnes wedi cychwyn masnachu ar Rybuddion Digwyddiad Dros dro ers dydd Gwener y 7fed o Orffennaf; ac nododd un ymatebydd ei fod wedi cael ei boeni gan fiwsig uchel yn cael ei chware ar y r eiddo nos Sul y 10fed o Orffennaf.
- Ymhellach , nododd sawl ymatebydd nad oedd gweithgareddau o'r fath yn yr awyr agored saith diwrnod yr wythnos yn addas ar gyfer y lleoliad
- Datganodd sawl ymatebydd eu pryderon y byddai gweithgareddau'r busnes yn cynyddu y sbwriel sydd yn cael ei adael yn y pentref ac ar y traeth
- **Atal Plant Rhag Niwed** – Nododd llawer o'r ymatebwyr fod llawer o deuluoedd a phlant yn cael eu denu i'r lleoliad; gyda plant yn chwilfrydig ac yn dod i'r lleoliad i weld y Tractors a'r cychod. Mynegwyd pryder y byddai cynnydd ym mhrysurddeb y lleoliad yn cynyddu'r risg o ddamwain o gwmpas y busnes a'r gyffordd brysur.

3.30 Gweler manylion llawn yr holl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn yr atodiad i'r adroddiad

4. Ystyriaethau Cynllunio

- 4.1 Er fod gweithdrefnau trwyddedu yn caniatáu i gais am drwydded dderbyn penderfyniad cyn i ymgeisydd dderbyn caniatâd Cynllunio; ni ellir datgymalu ystyriaethau Cynllunio oddi wrth y broses trwyddedu. Yn yr achos hwn; mae cais Cynllunio am Gaffi - Bar wedi ei wrthod ar gyfer y safle; ac un o'r prif resymau a roddwyd dros wrthod y cais cynllunio yn 2021 oedd pryderon diogelwch cyhoeddus ar y safle.
- 4.2 Mae pryderon ynglŷn a diogelwch y cyhoedd yr un mor berthnasol i'r cais am drwydded eiddo arfaethedig ; ac felly mae'n berthnasol ystyried y ffaith fod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad cyffelyb eisoes wedi ei wrthod; ac fod yr Uned Gorfodaeth Cynllunio yn ystyried camau gorfodaeth i atal y defnydd cyfredol di - ganiatâd ar y safle.

5 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn **gwrthod y cais** yn unol a darpariaethau'r Ddeddf Drwyddedu 2003 - ac yn bennaf oherwydd y rhesymau canlynol –

- Mae'r safle agored mewn lleoliad peryglus ar bwys y briffordd a chyffordd prysur, ac ar gwrtil busnes cychod prysur
- Ni fydd yn bosib i'r ymgeisydd atal y peryglon i gwsmeriaid ac eraill oherwydd trafndiaeth ceir, a tractors hefo trelars a cychod drwy fesurau rheoli oherwydd nad yw y safle yn ddiogel nac yn addas fel eiddo trwyddedig.
- Ni fydd yn bosib rheoli sŵn o'r lleoliad agored hwn; er waethaf y mesurau sydd yn cael eu cynnig gan yr ymgeisydd. .